# Atodiad B: Cynllun Gweithredu

| Adran berthnasol yng Nghynllun yr Iaith Gymraeg | Gweithredoedd | Dyddiad targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **Ein Cynllun** | | | |
| Adolygu a diwygio'r Cynllun | Adolygu'r Cynllun i baratoi ar gyfer Ebrill 2027. | Tachwedd 2026 - Ebrill 2027 | Swyddog y Gymraeg / Pob adran sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg |
| **Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth** | | | |
| Cyflenwi Gwasanaethau | Parhau i ddatblygu un gronfa o siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio'n hyblyg ac i ddarparu cymorth ar draws gweithrediadau Cymraeg yr Asiantaeth | Parhaus | Swyddog y Gymraeg / Gweithrediadau |
| Cynllunio ar gyfer y gweithlu ac olyniaeth | Monitro anghenion staffio'r Gymraeg ym mhob maes gweithredol i sicrhau bod gan yr Asiantaeth y lefel briodol o adnoddau i ddarparu ein gwasanaethau Cymraeg.<br>Dylai hyn hefyd gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y meysydd busnes i gwmpasu anghenion y Gymraeg yn y dyfodol. | Parhaus | Pob maes busnes gweithredol. |
| Datblygu Polisi | Codi ymwybyddiaeth ar draws y VOA o'r angen i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio polisi, menter neu wasanaeth newydd. | Parhaus | Pob aelod o staff yn cyfrannu at ddatblygiad polisïau, mentrau neu wasanaethau newydd. Tîm Cynllunio a Chyflenwi Profiad y Cwsmer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllunio ar gyfer newid | Wrth gynllunio a pharatoi prosiectau a newidiadau yn y dyfodol, byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau ar Gymru gan gynnwys y Gymraeg e.e. Cyfieithiadau Cymraeg, Cysoni Polisi, Ymgynghori. | Parhaus | Gwasanaethau rheoli newid / Timau Polisi a Rhaglenni |
| **Cyfathrebu â'r cyhoedd** | | | |
| Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg | Parhau i ddatblygu gallu a gwybodaeth ein Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg i wella lefel y gwasanaeth sydd ar gael i'n cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. | Parhaus | Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| Arweiniad a Hyfforddiant – Galwadau Iaith Gymraeg | Codi ymwybyddiaeth o'n Cynllun Iaith Gymraeg ymhlith aelodau ein tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yn Durham a Plymouth, a sut i ddelio'n effeithiol â galwadau Cymraeg a threfnu galwad yn ôl. | Parhaus | Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| Arweiniad a Hyfforddiant – Cofnod o ohebiaeth Gymraeg | Parhau i wella ein harweiniad a'n hyfforddiant i aelodau'r tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gweithwyr Achos ar sut i gofnodi ac adnabod cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith a'r rhai sy'n dymuno gohebu â'r Asiantaeth yn Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar sut i gofnodi a chanfod dewis iaith ar ein systemau digidol. | Parhaus | Pob adran sy'n ymwneud â chyswllt cwsmeriaid |
| Profi'r llinellau ffôn | Profi rhif cyswllt Cymru (gan gynnwys y llinell Gymraeg) i sicrhau bod y negeseuon Cymraeg a'r opsiynau perthnasol yn gweithio'n iawn. | Bob 3 mis | Swyddog y Gymraeg / Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| Negeseuon awtomataidd | Profi mewnflychau sy'n wynebu cwsmeriaid (sy'n berthnasol i Gymru) i sicrhau bod negeseuon awtomataidd yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog ac yn gywir. | Bob 4 mis | Swyddog y Gymraeg |
| Gohebiaeth ar ffurf copi caled ac e-bost | Parhau i sicrhau bod unrhyw fath o ohebiaeth gychwynnol (gan gynnwys unrhyw ddogfennau amgaeedig) i gwsmeriaid yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. | Parhaus | Pob adran sy'n ymwneud â chyswllt cwsmeriaid |
| **Ein cyhoeddiadau a'n harweiniad i gwsmeriaid** | | | |
| Canllaw cyfieithu | Datblygu canllaw i nodi'n well pryd y mae angen cyfieithu a chyhoeddi canllawiau cwsmeriaid a chyhoeddiadau yn Gymraeg. | Diwedd 2024 | Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyfathrebu / Tîm Cyhoeddi Digidol / |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y canllaw hwn yn ymdrin â chanllawiau sy'n eiddo i'r VOA ar dudalennau GOV.UK, cyhoeddiadau, a gwybodaeth a rennir ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Bydd yn nodi egwyddorion arweiniol yn ogystal ag enghreifftiau ymarferol i helpu i benderfynu pa gynnwys y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Bydd y canllaw yn helpu i benderfynu a oes angen cyfieithu unrhyw rai o'n dogfennau presennol i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at ddeunydd pwysig yn eu dewis iaith. | | Gwasanaethau Rheoli Newid |
| Tudalen hafan y VOA | Cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar ein tudalen hafan gan gynnwys logos dwyieithog a sicrhau bod ein gwasanaethau a'n darpariaethau Cymraeg yn weladwy i'r defnyddiwr. | Ar neu cyn Mawrth 2025 | Tîm Cyfathrebu / Tîm Cyhoeddi Digidol |
| Tudalennau we ar GOV.UK sy'n eiddo i'r VOA | Cynyddu nifer y tudalennau gwe Cymraeg ar GOV.UK sy'n eiddo i'r VOA yn unol â'r Canllaw Cyfieithu. | Diwedd 2026 | Tîm Cyfathrebu / Tîm Cyhoeddi Digidol |
| Y Cyfryngau Cymdeithasol | Sicrhau cynnwys cyfryngau cymdeithasol dwyieithog ar bynciau allweddol yn ogystal ag ymgyrchoedd sy'n berthnasol i gwsmeriaid yng Nghymru | Diwedd 2024 | Tîm Cyfathrebu |
| **Recriwtio** | | | |
| Asesiad o sgiliau iaith Gymraeg | Datblygu amserlen asesu sgiliau ar gyfer y cydweithwyr rydym yn eu recriwtio lle mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn rhan hanfodol o'u rôl. Bydd yr asesiad yn asesu sgiliau Cymraeg y cyflogai'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn waith i reoli ansawdd ac i amlygu unrhyw feysydd i'w gwella. | Diwedd 2026 | AD / Swyddog y Gymraeg |
| Cynefino cyflogeion newydd | Sicrhau bod pob cyflogai newydd sy'n ymuno â'r Asiantaeth neu sy'n newydd i rôl yng Nghymru yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau iaith Gymraeg a sut i ymdrin â gohebiaeth Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol i bob cyflogai ac yn enwedig y rhai sy'n ymuno ag Uned Brisio Ranbarthol (RVU) Cymru a Gorllewin Lloegr, DVS a Thimau Gwasanaeth Cwsmeriaid. | Diwedd 2025 | AD / Dysgu a Datblygu |
| **Dysgu a Datblygu** | | | |
| Cyfleoedd dysgu ac adnoddau | Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu Cymraeg wrth iddynt godi. | Parhaus | Swyddog y Gymraeg / Dysgu a Datblygu |
| Arweiniad ar y fewnrwyd | Diweddaru arweiniad presennol a chreu arweiniad newydd ar brosesau mewnol y Gymraeg yn ôl yr angen. Bydd yr arweiniad wedi'i leoli ar y dudalen fewnrwyd Gymraeg ganolog. | Diwedd 2025 | Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyhoeddi Digidol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhoi gwybod i gyflogeion am y prosesau Cymraeg diweddaraf | Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o brosesau'r Gymraeg yn fewnol drwy'r sianeli priodol. | Diwedd 2025 | Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyfathrebu |
| Canllaw cyfieithu | Codi ymwybyddiaeth ar draws y VOA am y Canllaw Cyfieithu newydd | Diwedd 2024 | Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyfathrebu / Tîm Cyhoeddi Digidol / Gwasanaethau Rheoli Newid |
| **Gweithredu a monitro'r Cynllun** | | | |
| Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun diwygiedig newydd. | Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn fewnol drwy'r sianeli priodol. | Ar neu cyn Ionawr 2024 | Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyfathrebu / Tîm Cyhoeddi Digidol/Gweithrediadau |
| Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun gweithredu newydd. | Cyhoeddi a hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig i'n cwsmeriaid ar ein gwefan a thrwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. | Ar neu cyn Ionawr 2024 | Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyfathrebu / Tîm Cyhoeddi Digidol |
| Monitro'r cynllun gweithredu | Defnyddio Gweithgor yr Iaith Gymraeg i fonitro datblygiadau wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar waith. | Parhaus | Aelodau'r Gweithgor Iaith Gymraeg |
| Adolygu ac Adrodd | Paratoi adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ac yn ôl y gofyn, yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu. | Bob mis Tachwedd | Swyddog y Gymraeg |